

Cyfansoddiad Awdurdodau Lleol

Y Pwyllgor Deisebau | 23 Hydref 2018
Petitions Committee | 23 October 2018

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-845

Teitl y ddeiseb: Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad Awdurdodau Lleol

Testun y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod yn galw ar i Lywodraeth Cymru orfodi gwell bolisiâu cod ymddygiad i gyflogeion awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd, mae swyddogion awdurdod cynllunio yn cael rhedeg cwmnïau ymgynghori cynllunio preifat a chyflawni eu rolau cyhoeddus ar yr un pryd. Nid oes adnodd ar gael y gellir ei fuddsoddi er mwyn plismona'r cwmnïau preifat hyn, lle y'u datgenir yn y ffurflenni angenrheidiol, er atal twyll a llygredd. A chymryd swyddogion cynllunio fel enghraifft, mae potensial y gallai rhedeg busnesau ymgynghori preifat 'yn ddistaw bach' hwyluso llygredd, gan fod llawer o fathau, yn gyffredinol yn ymwneud â chamddefnyddio swydd. Mae angen rhoi terfyn ar yr arfer hwn ar unwaith a rhaid diwygio'r cyfansoddiadau fel na cheir ymddwyn yn y modd hwn mwyach. Rydym yn galw am fwy o atebolrwydd a thryloywder gan ein hawdurdodau lleol, a rhaid pennu safonau ymddygiad mewn swyddogaethau cyhoeddus o'r fath a fyddai'n uwch na rhai'r sector preifat, lle mae hyn yn hynod annerbyniol.

Y cefndir

Mae [Adran 82\(7\) o Deddf Llywodraeth Leol 2000](#) yn gwneud Cod Ymddygiad yn rhan o delerau penodi, neu amodau cyflogaeth, pob gweithiwr cymwys. Mae Adrannau 82(2) a [105\(1\) o Deddf Llywodraeth Leol 2000](#) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion neu reoliadau ar y mater hwn.

Daeth [Gorchymyn Cod Ymddygiad \(Gweithwyr Cymwys Llywodraeth Leol\) \(Cymru\) 2001](#) i rym ym mis Gorffennaf 2001. Mae'r Atodlen sydd ynghlwm i'r Gorchymyn yn nodi'r egwyddorion allweddol o ran yr hyn a ddisgwylir gan weithwyr awdurdodau lleol yn eu hymddygiad o

ddydd i ddydd. Mae atebolrwydd, buddiannau personol ac ymdrin â gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn y Cod.

Swyddogion Monitro awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod Aelodau a gweithwyr yn cynnal y safonau ymddygiad uchaf wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Mae prif ddyletswyddau'r Swyddog Monitro wedi'u nodi isod. Mae sail gyfreithiol y Swyddogion Monitro i'w gweld yn [Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989](#), fel y'i diwygiwyd gan [Atodlen 5 i baragraff 24 Deddf Llywodraeth Leol 2000](#).

Mae gan y Swyddog Monitro dair prif rôl:

1. Adrodd ar faterion y mae o'r farn sy'n anghyfreithlon neu'n debygol o fod yn anghyfreithlon neu'n gyfystyr â chamweinyddu.
2. Bod yn gyfrifol am Faterion yn ymwneud ag ymddygiad cynghorwyr a swyddogion.
3. Bod yn gyfrifol am weithredu cyfansoddiad y cyngor.

Er mwyn sicrhau gwahanu rolau, ni chaiff y swyddog monitro gyflawni dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyllid hefyd na dyletswyddau'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Mae angen i swyddogion Awdurdodau Cynllunio Lleol, ynghyd â swyddogion eraill i gyd gadw at god ymddygiad eu hawdurdod. Nid yw hyn yn rhwystro iddynt rhag ymgymryd â gwaith yn eu maes y tu allan i faes o gyfrifoldeb eu hawdurdod, cyhyd ag y cofrestrir eu buddiannau preifat yn briodol yn unol â'r rheolau ac nid ydynt yn caniatáu i'w buddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn tynnu sylw at y potensial i godi unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad anfoesegol gyda'r corff proffesiynol perthnasol, sef y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, yn yr achos hwn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.